

Gwers 13 – Joshua a brwydr Jericho

Nodiadau Cefndir i'r Athro

Joshua 1:1–6; 6:1–20

Symudwn o'r Pentateuch, pum llyfr cyntaf Y Beibl, i ddeuddeg o lyfrau hanes, gyda Stori Duw yn symud o goncwest Gwlad yr Addewid, drwy gyfnod dirywiad y frenhiniaeth, i'r gaethglud o dan bwerau estronol, ac i ddychweliad y genedl Iddewig o'r Gaethglud. Er iddo arwain y genedl o'r Aifft a threulio dros ddeugain mlynedd yn crwydro'r anialwch, ni chafodd Moses fynd drosodd i Wlad yr Addewid (Deut. 34:1–5). Ond, fel pob arweinydd da, roedd Moses wedi sicrhau olynnydd iddo, sef Joshua fab Nun, gŵr yn "llawn o ysbryd doethineb, oherwydd yr oedd Moses wedi gosod ei ddwylo arno; felly gwrandawodd yr Israeliaid arno yntau, a gwneud fel yr oedd yr ARGLWYDD wedi gorchymyn i Moses" (Deut. 34:9). Yn wahanol i Moses, ei fentor, caiff Joshua groesi i Wlad yr Addewid, y tir yr oedd Duw wedi ei addo i Abraham a'i ddisgynyddion ganrifoedd ynghynt. Y mae'r llyfr sy'n dwyn enw Joshua yn adrodd yr hanes am oresgyniad a rhannu'r wlad rhwng deuddeg llwyth Israel, yn dwyn enwau meibion Jacob. Joshua yw arwr mawr y llyfr.


O dan arweiniad Moses roedd y genedl wedi cyrraedd ffin Gwlad yr Addewid, yn agos i afon Iorddonen. Anfonodd Moses un dyn o'r deuddeg llwyth i ysbïo'r wlad (Numeri 13); yn eu mysg yr oedd Joshua. Dychwelodd yr ysbïwyr ac adrodd fod y wlad "yn llifeirio o laeth a mêl" a dygasant beth o'r ffrwyth gyda hwy. Dywedasant hefyd fod "y bobl sy'n byw yn y wlad yn gryf; y mae'r dinasoedd yn gaerog ac yn fawr iawn" (Numeri 13:27–28). Cododd y newyddion am y bobl ofn ar yr Israeliaid ac aethant at Moses ac Aaron a dechrau grwgnach a dweud, "Pam y mae'r ARGLWYDD yn mynd â ni i'r wlad hon lle byddwn yn syrthio trwy fin y cleddyf, a lle bydd ein gwragedd a'n plant yn ysbail? Oni fyddai'n well inni ddychwelyd i'r Aifft?" (Numeri 14:3).

Cymrodd Joshua fantell Moses ac wedi ceisio arweiniad Duw anfonodd swyddogion a gorchymyn i'r bobl, "Darparwch i chwi luniaeth, oherwydd o fewn tridiau byddwch yn croesi'r Iorddonen ar y ffordd i feddiannu'r wlad y mae'r ARGLWYDD eich Duw yn ei rhoi'n etifeddiaeth i chwi." (Joshua 1:11). Fel y gwahanodd dyfroedd gwlypdir Yam Suph (gwers 12), gwahanwyd dyfroedd yr Iorddonen i alluogi i'r bobl groesi, gan gario Arch y Cyfamod yn cynnwys llechi'r Deg Gorchymyn.

Y ddinas gaerog gyntaf i'w goresgyn oedd Jericho, gyda mur uchel yn ei hamgylchynu fel na allai neb fynd i mewn nac allan ohoni ac nad oedd modd ei dymchwel. Ond yr oedd Duw gyda Joshua a gorchynnodd i'r fyddin gerdded o amgylch y ddinas unwaith y dydd am chwe diwrnod tra chwythai'r offeiriad drympedi a wnaed o gyrrn defaid. Yna, ar y seithfed diwrnod roeddent i gerdded o amgylch y ddinas saith waith. Ar y seithfed cylch o'r ddinas, ar ôl i'r offeiriaid chwythu'r trympedi, roedd y bobl i floeddio. Gwnaed hynny ac ar floedd y bobl syrthiodd mur y ddinas ac aeth byddin Joshua i mewn a'i meddiannu. Y mae cwmp Jericho yn un o'r digwyddiadau mwyaf nodedig yn y Beibl, ond rhaid cofio bod hynny, fel concro'r wlad, yn waith Duw.

Jericho

Dinas heb fod ymhell o afon Iorddonen, ac ychydig i'r gogledd o'r Môr Marw. Yn un o'r dinasoedd hynaf yn y byd, gyda thystiolaeth fod trigolion yno yn 7000 CC. Saif 800 troedfedd islaw'r Môr Marw, gyda'r tymheredd addas ar gyfer tyfu palmwydd, ac oherwydd hynny gelwid hi "dinas y palmwydd".



Dyma Josua yn arwain yr Israeliaid tuag at Jericho.
Fedri di eu helpu i ganfod y llwybr cywir?
Darllen y stori hon yn Josua 6.

Gwers 13 – Josua a Brwydr Jericho

Waliau Jericho | Josua 6:1–20

Beibl Gweithgaredd y Plant / Lleiaf tud. 58



Gwers 13

Josua a brwydr Jericho

BEIBL GWEITHGAREDD Y PLANT DAN/DROS 7 oed

Josua a brwydr Jericho tud 58

BEIBL LLIW STORI DUW

Buddugoliaeth yn Jericho tud 74

BEIBL BACH STORI DUW

Arweinydd milwrol tud 108

BEIBL NEWYDD Y STORIWR

Y Waliau'n Disgyn tud 38

BEIBL LLIW Y PLANT

Buddugoliaeth Jericho tud 94

BEIBL NEWYDD Y PLANT

Waliau Jericho tud 50

BEIBL BACH I BLANT

Josua'n Ennill y Frwydr tud 138

Y BEIBL I BLANT mewn 365 o storïau

Gorchymyn rhyfedd (79) tud 94

BEIBL LLIW Y TEULU

Josua'n Ennill y Frwydr tud 138

I Ddechrau

Paratowch nifer o luniau baneri gwahanol wledydd. Gofynnwch i'r plant adnabod y gwledydd a gofynnwch beth maent yn ei wybod am y gwledydd hynny. A fydden nhw'n hoffi byw yn ... (ewch trwy'r gwledydd yn unigol)? Pam?

Beth fyddai yn eu gwlad ddelfrydol hwy? (Haul bob dydd, melysion yn tyfu ar goed, gwlad heb ysgol, gwlad lle mae hufen iâ ar gael am ddim... rhowch ychydig o syniadau iddynt ac yna gallwch ddibynnu ar eu dychymyg nhw).

Roedd Duw wedi addo gwlad hyfryd yn gartref newydd i'r Israeliaid wedi iddynt adael gwlad yr Aifft gyda Moses. Defnyddiwch y Llinell Amser i ddangos i'r plant bod y pennawd Gwlad yr Addewid yn dilyn hanes Moses a'r Aifft.

Byddai'r wlad newydd hon yn gartref braf iddynt – ond roedd problem! Nid oedd yr Israeliaid yn gallu mynd i'r wlad oherwydd bod gan y bobl oedd eisoes yn byw yn y wlad ddinasoedd mawr yn cadw pobl allan. Un o'r dinasoedd hynny oedd Jericho. Heddiw, byddwn yn darllen sut y gwnaeth Duw helpu'r Israeliaid i goncro dinas Jericho.

Yr hanes

Darllenwch yr hanes gan ddefnyddio'r Beibl Gweithgaredd neu un o'r llyfrau ar y Rhestr Adnoddau.

Atgyfnerthu'r stori

Gofynnwch i'r plant sut goncrwyd dinas Jericho? Ai Josua goncrodd y ddinas? Neu'r offeiriaid? Neu'r dynion a greodd trympedi o gyrn hyrddod?

Ceisiwch arwain y plant i weld fod gan bawb eu rhan yn yr ymgyrch – o'r person cyffredin hyd at yr arweinydd, Josua. Fe wnaethon nhw gydweithio gan wrando ar yr hyn yr oedd Duw wedi ei ddweud wrthyn nhw.

Cwis

Cynhaliwch gwis syml ar ffeithiau'r stori. Wrth i'r tîm ateb cwestiwn, gallant dynnu llun bric ar ddarn o bapur, gan ychwanegu bric arall am bob ateb cywir. Pwy fydd â'r wal uchaf erbyn diwedd y cwis?

Cymhwyso'r stori

Cymharwch hyn gyda bywyd eich eglwys neu'r Ysgol Sul. Ceisiwch gael y plant i restru pwy sydd yn chwarae rhan ym mywyd yr eglwys neu'r Ysgol Sul - y gweinidog, y blaenoriaid/diaconiaid, pianydd/organydd, athrawon, y person sy'n croesawu wrth y drws ac ati (pwy arall?). Ond dylid dangos fod pawb yn bwysig yn yr eglwys - plant ac ieuencid, yr aelodau. Ac mae'n bwysig fod pawb yn gwrando ar Dduw ac yn fodlon rhoi amser ac ymdrech i wasanaethu'r Arglwydd.

Dysgu adnod

Josua 1:9 (aralleiriad o'r Beibl Gweithgaredd)

'Paid â bod ofn, oherwydd bydda i, yr Arglwydd, gyda thi ble bynnag yr ei di.'

Rhowch ddarn o bapur i'r plant a'u helpu i greu corn siarad gyda'r papur. Gofynnwch iddynt ailadrodd yr adnod gan ddefnyddio'r corn siarad.

Gweddi

(gan gydnabod Lucy Moore, awdur 'Messy Church' am y syniad gwreiddiol)

Gofynnwch i aelodau'r dosbarth godi eu dwylo yn uchel, fel petaent yn ceisio cyrraedd top waliau dinas Jericho.

'O Dduw, weithiau mae ein problemau mor fawr fel nad ydym yn gwybod beth i'w wneud.

(Arweiniwch y dosbarth i wneud i'w dwylo rhoio i lawr, fel waliau Jericho yn disgyn).

Helpa ni i gyflwyno'n problemau i ti.

(Y dosbarth i godi eu dwylo yn uchel eto a gofynnwch iddynt feddwl am broblem bersonol, neu broblem yn y byd. Yna arweiniwch y plant i ostwng eu dwylo eto).

Diolch Arglwydd, dy fod ti'n barod i helpu pawb sydd â phroblemau oherwydd dy fod yn eu caru.

Amen.'

Cân

'Cân o fawl i Dduw, Haleliw, Haleliwia',

(Tyrd i Ddathlu, rhif 8)

Adnoddau Ychwanegol

Crefft

Llyfr Crefftau Stori Duw i blant dan 11 oed *Duw'n rhoi buddugoliaeth dros Jericho* tud. 34

Gwerslyfrau Golau ar y Gair

Josua yr arweinydd newydd

Taflenni gwefan amserbeibl.org

Cyfres C - Josua

Cyfres DVD Stori Duw

Stori 12: Brwydr Jericho

Cwis a Chwilair

Llyfr Cwis Cynta i Ateb, tud 282

Cyfres PowerPoints Beibl Bach i Blant

Cyflwyniad 15: Josua'n ennill y frwydr

Llyfrau Stori

Cerdded o gwmpas y muriau gyda Josua

Josua, yr arweinydd dewr

